Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | South Wales Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English

**OFFICIAL SWYDDOGOL**

## Proffil y Rôl

| | |
|---|---|
| **Teitl y Rôl:** | Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| **Gradd:** | PO 4/5 |
| **Yn atebol i:** | Cyfarwyddwr Cymunedau, Partneriaethau ac Atal |
| **Yn gyfrifol am:** | Y tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| **Cydgysylltu â:** | Swyddogion yr Heddlu, staff yr Heddlu, y cyhoedd, sefydliadau allanol, y cyfryngau lleol a chenedlaethol, asiantaethau a phartneriaethau, Aelodau Seneddol a Llywodraeth Cymru. |
| **Lefel Fetio Ofynnol:** | MV/SC – Fetio Rheoli a Chliriad Diogelwch |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | Gorffennaf 2026 |

**Trosolwg o'r Rôl**

Mae'r Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn gyfrifol am arwain gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar adeg hollbwysig o bontio a newid, wrth barhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni Cynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder.

Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'u hethol i sicrhau bod y gwasanaeth plismona yn gwrando ar farn y cyhoedd ac yn ei hadlewyrchu. Bwriedir i Gomisiynwyr fynd ati mewn modd amlwg i gynrychioli'r cyhoedd ar faterion troseddu a phlismona. Rhaid iddynt ymgysylltu â'r cyhoedd a chynrychioli'r cyhoedd ar faterion o ddiddordeb lleol a chyflawni'r dyletswyddau hynny â thryloywder. Mae cyfathrebu ac ymgysylltu strategol sy'n amserol ac yn effeithiol yn ganolog i lwyddiant rôl y Comisiynwyr a bydd deiliad y swydd yn sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni.

Dyma swydd lefel uwch yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, yn arwain tîm cyfathrebu ac ymgysylltu bach, wrth sicrhau bod holl staff y Swyddfa yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau cysylltiedig. Gan weithio'n agos gyda'r uwch-arweinwyr a'r tîm ehangach, yn ogystal â staff cyfathrebu Heddlu De Cymru, bydd deiliad y swydd yn gosod ac yn arwain y gwaith o gyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid allanol a mewnol. Bydd yn sicrhau bod rhaglen gynhwysfawr o gyfathrebu ac ymgysylltu yn cael ei chyflawni i wella sut mae'r Comisiynydd a'r Swyddfa yn cyfathrebu, yn gwrando ar y cyhoedd a chymunedau lleol ac yn ymateb iddynt.

Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am feithrin ymwybyddiaeth o'r Comisiynydd, a hybu ei phroffil, ei dylanwad a'i heffaith, gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yn darparu cyngor strategol a chanllawiau polisi i'r Comisiynydd a chydweithwyr ar gyfathrebu ac ymgysylltu, a materion cysylltiedig ar draws holl sbectrwm gwaith y Swyddfa.

Fel rheolwr ac arweinydd tîm yn nhîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, bydd gofyn i ddeiliad y rôl gyfrannu at y gwaith o reoli a datblygu'r tîm ehangach yn ogystal â chynrychioli uwch-reolwyr mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.

Mae hon yn rôl ymatebol sy'n cynnwys rhywfaint o waith y tu allan i oriau a gall hefyd gynnwys teithio, ar fyr rybudd.

| **Prif** | **Cyngor ac Arweiniad** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Gyfrifoldebau** | • Arwain y swyddogaeth cyfathrebu ac ymgysylltu ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gan ddarparu cyfarwyddyd a chraffter ar ymgysylltu â'r cyfryngau a'r gymuned.<br>• Sicrhau bod perthnasoedd effeithiol yn cael eu meithrin a'u cynnal â'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys y cyhoedd, y cyfryngau lleol a chenedlaethol, cynrychiolwyr etholedig eraill ac yn fewnol gyda'r heddlu.<br>• Arwain y gwaith o lunio rhaglen cyfathrebu ac ymgysylltu gynhwysfawr a rhagweithiol, a sicrhau y caiff ei chyflawni'n effeithiol, gan weithredu'r argymhellion o'r adolygiad o weithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu Swyddfa'r Comisiynydd a gomisiynwyd yn ddiweddar.<br>• Arwain ar wella protocolau a phrosesau ar gyfer cydlynu'r holl gyfathrebiadau o Swyddfa'r Comisiynydd ac Adran Cyfathrebu Corfforaethol yr heddlu. Arwain wrth feithrin perthynas waith gref a chydweithredol rhwng y ddwy swyddfa.<br>• Pennu arddull gorfforaethol Swyddfa'r Comisiynydd, bod yn berchen ar honno, a sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n briodol ac yn gyson er mwyn cynnal brand clir ac adnabyddadwy o safon (gan gynnwys y wefan, y cyfryngau cymdeithasol a sianeli digidol eraill), gyda phwyslais ar negeseuon a arweinir gan y gynulleidfa ac adrodd straeon am effaith.<br>• Arwain wrth ddatblygu a gweithredu gweithgarwch ymgyrchu, gan ddefnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau targedu a chyrhaeddiad effeithiol i hyrwyddo gwaith Swyddfa'r Comisiynydd, gan integreiddio gwerthuso er mwyn asesu effaith.<br>• Arwain ar ddatblygu safbwyntiau a drafftio a chyhoeddi datganiadau cyhoeddus ar ran y Comisiynydd.<br>• Arwain wrth baratoi am achlysuron uchel eu proffil pan fydd y Comisiynydd yn ymddangos ac yn siarad yn gyhoeddus - gan gynnwys areithiau ac ymddangos yn y cyfryngau.<br>• Cefnogi datblygiad parhaus ymagwedd 'digidol yn gyntaf' at greu cynnwys i wella effeithiolrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu, ymgorffori newid diwylliannol a sicrhau effeithlonrwydd o ran costau.<br>• Defnyddio technegau effeithiol i reoli rhaglenni a phrosiectau, cynllunio, ysgogi a monitro gweithgarwch y tîm. Nodi a lliniaru materion ac ansicrwydd cysylltiedig mewn modd effeithiol.<br><br>**Gwella Busnes**<br><br>• Cyfrannu at gyflawni gweithgareddau sy'n cefnogi'r blaenoriaethau yng Nghynllun yr Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder yn llwyddiannus.<br>• Nodi, cynnig a gweithredu datblygiadau a gwelliannau i'r ardal, yr uned neu brosiect er budd i Swyddfa'r Comisiynydd, yr heddlu a'r cyhoedd.<br>• Arwain mentrau i wella prosesau busnes<br>• Monitro contractau gan sicrhau bod gwelliant parhaus yn ganolog i ddatblygu gwasanaethau.<br>• Adnabod meysydd y mae angen eu gwella a mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar atebion.<br>• Canolbwyntio ar werthuso gwasanaethau i fesur a dangos effaith. |

| | |
|---|---|
| | **Trefnu/Cynllunio**<br><br>• Goruchwylio wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n ymateb i flaenoriaethau cyfathrebu ac ymgysylltu, yn seiliedig ar angen a thystiolaeth<br>• Cynllunio a threfnu gwaith i'w gwblhau o fewn fframwaith, safonau ac amserlenni penodol<br>• Trefnu ac amserlennu digwyddiadau/cyfarfodydd yn ôl cyfarwyddyd<br>• Gweithredu a chyfrannu at strategaeth gwasanaeth yn ôl cyfarwyddyd<br>• Nodi adnoddau addas i gyflawni amcanion y maes pwnc neu'r prosiect, a cheisio cymeradwyaeth i'w defnyddio<br><br>**Rheoli Pobl**<br><br>• Monitro a dyrannu llwyth gwaith o fewn y tîm<br>• Cynorthwyo'r tîm i baratoi a defnyddio cyfarpar a thechnegau a chynghori ar unrhyw agweddau penodol ar waith yn eich maes eich hun<br>• Arwain y tîm i nodi ac ymgysylltu â phartneriaid a all gyfrannu at y gwaith<br>• Goruchwylio staff iau drwy ddilyn polisi Swyddfa'r Comisiynydd a monitro lefelau perfformiad, gan gydnabod a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella<br>• Hyrwyddo gweithgarwch datblygu staff a chwilio am gyfleoedd sy'n cyd-fynd â meysydd a nodwyd mewn sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol<br><br>**Polisïau a Strategaethau**<br><br>• Arwain wrth lunio polisïau ac ymgynghori arnynt o fewn y maes pwnc<br>• Cynnal golwg strategol ar faterion sy'n effeithio ar yr agenda cyfathrebu ac ymgysylltu, gan sicrhau bod materion sy'n codi yn llywio'r gwaith o gyflawni ar flaenoriaethau<br>• Ymchwilio i bolisïau, eu hadolygu a'u llunio lle y bo'n briodol<br>• Monitro'r broses o roi polisïau ar waith ac adrodd arni er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a nodi materion/problemau<br>• Arwain ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu, rhoi cyngor arnynt a'u diffinio, yn ogystal â chydweithio â thimau eraill yn y sefydliad i gyflawni ar y blaenoriaethau hynny.<br><br>**Rheoli Prosiectau**<br><br>• Goruchwylio'r rhaglen cyflawni cyfathrebu ac ymgysylltu ar lefel strategol<br>• Goruchwylio a rheoli prosiectau gan gynnwys paratoi a chynllunio adnoddau<br>• Sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei gyflawni yn unol â'r fframwaith sefydliadol<br>• Adrodd i'r uwch-dîm arweinyddiaeth gweithredol yn rheolaidd ynghylch cynnydd, ansicrwydd a materion<br>• Cynnal adolygiad cadarn o'r broses o roi prosiectau ar waith er mwyn sicrhau bod busnesau'n cael budd ohonynt a bod amcanion y prosiectau'n cael eu darparu a'u cyflawni.<br><br>**Rheoli Risgiau a Chydymffurfiaeth Gyfreithiol** |

| | |
|---|---|
| | • Nodi a lliniaru risgiau yn y rhaglen waith, a'u cyfeirio at y Cyfarwyddwr pan fo angen.<br>• Darparu cyngor ac arweiniad ar risgiau a materion sy'n ymwneud â dyfarnu a rheoli cyllid<br>• Sicrhau cydymffurfiaeth sefydliadol ar gyfer meysydd busnes, er enghraifft iechyd a diogelwch, diogelu data, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ac uwchgyfeirio problemau difrifol<br><br>**Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chynrychiolaeth**<br><br>• Cynrychioli Swyddfa'r Comisiynydd yn gadarnhaol yn fewnol ac yn allanol, gan gyfleu negeseuon allweddol sy'n gyson ag ymagwedd, gwerthoedd a blaenoriaethau'r Comisiynydd<br>• Ymgysylltu'n effeithiol â phobl a chymunedau lleol ar bob lefel, i ddarparu llinell gyfathrebu hygyrch a gwasanaeth o safon<br>• Bod yn barod i gefnogi a chymryd rhan yn nigwyddiadau'r Comisiynydd i ymgysylltu â'r gymuned<br>• Defnyddio dull proffesiynol o rannu a diogelu data yn ogystal â rheoli gwybodaeth.<br>• Cynnal cyfrinachedd mewn perthynas â materion diogelu data a safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI<br><br>Yn ogystal, bydd yn rhaid i ddeiliad y swydd fod yn barod i ymgymryd â'r cyfryw ddyletswyddau ychwanegol a all godi yn sgil amgylchiadau sy'n newid, ond nad ydynt, o reidrwydd, yn newid natur gyffredinol na lefel cyfrifoldeb y swydd. |
| **Cymwysterau** | **Hanfodol**<br><br>• Gradd neu brofiad cyfatebol ynghyd â chymhwyster mewn cyfathrebu proffesiynol.<br><br>**Dymunol**<br><br>• Cymhwyster ôl-raddedig mewn maes pwnc cysylltiedig |
| **Gwybodaeth** | **Hanfodol**<br><br>Profiad o rôl yn y sector cyfiawnder troseddol a/neu blismona, neu'r gallu i ddangos yn glir sut y gellir trosglwyddo profiad blaenorol mewn mannau eraill yn briodol. |
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br><br>• Profiad sylweddol mewn rolau sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu ar lefel uwch/strategol a thystiolaeth o hanes o roi cyngor dibynadwy a phennu gweledigaeth a chyfeiriad clir mewn amgylcheddau cymhleth, uchel eu proffil a gwleidyddol sensitif.<br>• Cyfathrebwr clir a hyderus sy'n meddu ar allu ac angerdd am ddefnyddio technegau cyfathrebu ac ymgysylltu i gyflawni amcanion sefydliadol ehangach.<br>• Y gallu i ddangos datblygiad strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ar gyfer nifer o grwpiau o randdeiliaid |

| | |
|---|---|
| | • Y gallu i ddangos tystiolaeth o ymgyrchoedd rhagweithiol a llwyddiannus ym maes cyfathrebu ac ymgysylltu, ar lefel leol a chenedlaethol<br>• Y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau, offer a thechnegau digidol i gyfathrebu'n effeithiol mewn ffordd bwrpasol ag ystod o gynulleidfaoedd, a defnyddio craffter i werthuso effaith.<br>• Y gallu i ddeall safbwyntiau a blaenoriaethau rhanddeiliaid perthnasol, a llunio strategaethau i sefydlu perthnasoedd sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, a chyflawni nodau a ddymunir.<br>• Y gallu i ymdopi â llwyth gwaith trwm yn effeithlon ac yn effeithiol, wrth gynnal safonau ansawdd eithriadol.<br>• Y gallu i fod yn hyblyg ac addasu mewn amgylchedd dan bwysau.<br>• Y gallu i ddangos sgiliau craffu a dadansoddi cryf<br>• Sgiliau dylanwadu cryf.<br>• Rhaid meddu ar brofiad o gynghori uwch-reolwyr mewn perthynas â materion proffil uchel.<br>• Y gallu i 'sganio'r gorwel' am yr wybodaeth ddiweddaraf am agendâu a materion sy'n dod i'r amlwg, a throsi eu perthnasedd i flaenoriaethau sefydliadol.<br>• Y gallu i ddefnyddio gwybodaeth a chudd-wybodaeth er mwyn sicrhau bod proses effeithiol o wneud penderfyniadau a datblygu polisïau effeithiol yn cael ei rhoi ar waith.<br><br>**Dymunol**<br><br>• Cymraeg Iaith Lefel 2 – Yn gallu deall hanfod sgwrs yn Gymraeg ac yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol ac ymateb i geisiadau syml yn Gymraeg. Yn gallu trosglwyddo galwadau ffôn yn Gymraeg. Yn gallu cyflwyno eich hun a phobl eraill yn ôl enw, rôl a lleoliad/sefydliad. Yn gallu cyfrannu at gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg. |
| **Rhinweddau Personol** | **Gwasanaethu'r Cyhoedd**<br><br>Dangos cred wirioneddol mewn gwasanaethu'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd ac a fydd o'r budd mwyaf iddynt.<br>Deall disgwyliadau, anghenion a phryderon cymunedau gwahanol a cheisio mynd i'r afael â nhw<br>Meithrin hyder y cyhoedd drwy siarad â phobl mewn cymunedau lleol er mwyn ystyried eu safbwyntiau a chwalu'r rhwystrau rhyngddyn nhw a'r heddlu.<br>Deall effaith plismona ar gymunedau gwahanol a'r buddiannau iddynt, a nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau iddynt.<br>Datblygu partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth cyffredinol gorau posibl i'r cyhoedd.<br><br>**Proffesiynoldeb**<br><br>Gweithredu ag uniondeb, yn unol â gwerthoedd Gwasanaeth yr Heddlu.<br>Cymryd perchenogaeth wrth ddatrys problemau, gan ddangos dewrder a gwydnwch wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd a allai fod yn ymfflamychol.<br>Gweithredu ar eich liwt eich hun i fynd i'r afael â materion, gan ddangos agwedd gref at waith a gwneud ymdrech ychwanegol pan fo angen. |

| | |
|---|---|
| | Cynnal safonau proffesiynol, gan fod yn esiampl i eraill a herio ymddygiad amhroffesiynol neu wahaniaethol.<br>Cadw'n bwyllog ac yn broffesiynol dan bwysau, gan leddfu gwrthdaro a bod yn barod i gamu ymlaen a chymryd rheolaeth pan fo angen. |
| | **Agored i Newid** |
| | Bod yn gadarnhaol ynghylch newid, gan ymateb mewn modd hyblyg ac addasu i ffyrdd gwahanol o weithio<br>Dod o hyd i ffyrdd gwell, mwy cost-effeithiol o wneud pethau, gan wneud awgrymiadau ar gyfer newid.<br>Mabwysiadu dull arloesol a chreadigol o ddatrys problemau.<br>Gofyn am adborth a gweithredu arno, gan ddysgu o brofiad a meithrin eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol eich hun. |
| | **Arwain Newid** |
| | Ysbrydoli pobl i gyflawni nodau heriol, gan gynnal momentwm ar gyfer newid.<br>Rhoi cyfarwyddiadau a nodi disgwyliadau yn glir.<br>Siarad yn gadarnhaol am blismona, gan ennyn brwdfrydedd ac ymroddiad<br>Cymell staff drwy roi canmoliaeth wirioneddol, gan dynnu sylw at lwyddiant a chydnabod perfformiad da.<br>Rhoi adborth gonest ac adeiladol er mwyn helpu pobl i ddeall eu cryfderau a'u gwendidau.<br>Buddsoddi amser i ddatblygu pobl drwy eu hyfforddi a'u mentora, gan gynnig cyfleoedd datblygiadol i staff a'u hannog i dderbyn cyfrifoldebau newydd. |
| | **Gwneud Penderfyniadau** |
| | Casglu, dilysu ac asesu'r holl wybodaeth briodol sydd ar gael i feithrin dealltwriaeth gywir o sefyllfaoedd.<br>Ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl cyn gwneud penderfyniadau clir ac amserol y gellir eu cyfiawnhau.<br>Adolygu penderfyniadau gan ystyried gwybodaeth newydd ac amgylchiadau newidiol.<br>Cydbwyso risgiau, costau a buddiannau, gan ystyried effaith ehangach penderfyniadau.<br>Arfer disgresiwn a barn broffesiynol, gan sicrhau bod camau gweithredu a phenderfyniadau yn gymesur ac er budd y cyhoedd. |
| | **Cydweithio ag Eraill** |
| | Cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni pethau, gan fod yn barod i roi help a chymorth i gydweithwyr. Yn hawdd mynd atoch, gan ddatblygu cydberthnasau gwaith cadarnhaol.<br>Gwrando'n ofalus a gofyn cwestiynau er mwyn sicrhau dealltwriaeth, gan leisio eich barn eich hun yn gadarnhaol ac yn adeiladol.<br>Darbwyllo pobl drwy bwysleisio manteision dull gweithredu penodol, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a rheoli eu disgwyliadau.<br>Bod yn foesgar, yn gwrtais ac yn ystyriol, gan ddangos empathi a thosturi Trin pobl fel unigolion, gan fynd i'r afael â'u hanghenion a'u pryderon penodol. |

| | |
|---|---|
| | Trin pobl â pharch ac urddas, gan ymdrin â nhw'n deg a heb ragfarn drwy beidio â beirniadu, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau. |

| **SYLWER:** |
|---|
| Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac efallai, o bryd i'w gilydd, y bydd angen cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â gradd a natur cyffredinol y swydd. At hynny, gall y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau uchod amrywio a/neu gael eu datblygu rhywfaint heb newid natur gyffredinol y swydd.<br>Ac eithrio unrhyw Ddirprwy a benodir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ni ddylai staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ymgymryd â gwaith gwleidyddol ond mae'n ofynnol iddynt weithredu mewn ffordd sy'n sensitif ac sydd wedi'i llywio'n llwyr gan y cyd-destun polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n berthnasol i gyfrifoldebau'r Comisiynydd o ran plismona, diogelwch cymunedol, diogelu'r cyhoedd a chyfiawnder troseddol. Bydd deiliad y swydd mewn swydd sy'n wleidyddol gyfyngedig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'n ofynnol i Swyddfa'r Comisiynydd ymgymryd â'i rôl mewn ffordd sy'n ystwyth ac yn ymateb i fudd y cyhoedd, gan ddangos atebolrwydd uniongyrchol i'r Comisiynydd a'r cyhoedd yn ogystal â gweithgarwch goruchwylio a chraffu cefnogol sy'n deillio o drefniadau Panel yr Heddlu a'r pwyllgor archwilio annibynnol. Ochr yn ochr â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ymgymryd â'i rolau drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r heddlu a'r cyhoedd, asiantaethau partner yn y sector preifat a'r trydydd sector ar bob lefel, â llywodraeth leol a chenedlaethol ac â'r cyhoedd.<br>Oherwydd natur y rôl, efallai y bydd cynnwys y portffolio yn newid yn unol â deddfwriaeth, polisi'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a blaenoriaethau Swyddfa'r Comisiynydd. Caiff y meysydd gwaith eu pennu gan y blaenoriaethau a bennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu felly mae'n bosibl y caiff y meysydd portffolio eu diwygio neu eu hailbennu i fod yn gyson â'r blaenoriaethau hyn. Rhaid i bob cyflogai gydymffurfio â'r nodweddion cyfrinachedd a nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y Canllawiau ar Reoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI) a'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol (y byddwch yn rhwym wrthi am oes). |

Rhaid i bob unigolyn o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru ddangos y rhinweddau i allu gweithio mewn sefydliad â grwpiau lleiafrifol a darparu gwasanaeth i grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau. Rhaid iddynt ddangos y gallu i gyfrannu at amgylchedd gwaith agored a theg lle ni chaniateir ymddygiad amhriodol. Ni ddylent ddangos unrhyw dystiolaeth y byddant yn debygol o gyfrannu at unrhyw achos o fwlio yn y gweithle nac unrhyw fath arall o ymddygiad gwahaniaethol.

## Dull Asesu

Wrth gwblhau eich cais, sicrhewch eich bod yn cwblhau'r adrannau wedi'u marcio isod yn unig am mai'r rhain yw'r adrannau a fydd yn cael eu hystyried ar gam llunio rhestr fer eich cais.

| | **Llunio rhestr fer** |
|---|---|
| Cymwysterau | ✓ |
| Sgiliau | ✓ |
| Gwybodaeth | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Gwasanaethu'r Cyhoedd | |

| | |
|---|---|
| Rhinwedd Bersonol – Proffesiynoldeb | |
| Rhinwedd Bersonol – Arwain Newid | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Arwain Pobl | |
| Rhinwedd Bersonol – Rheoli Perfformiad | |
| Rhinwedd Bersonol – Gwneud Penderfyniadau | ✓ |
| Rhinwedd Bersonol – Cydweithio ag Eraill | ✓ |